

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Jennifer Mills

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cymorth i  
Ferched Cymru

e-bost / rhif ffôn:

[jenmills@welshwomensaid.org.uk](mailto:jenmills@welshwomensaid.org.uk)

Eich cyfeiriad: Tŷ Pendragon, Plas Caxton,  
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

### Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer atal cam-drin pobl hŷn

**1. A ydych chi'n cytuno bod y tri amcan cyffredinol yn briodol? Os na, beth y dylent fod?**

**Cytuno'n Gryf**

**Tueddu i Gytuno**

**Anghytuno'n Gryf**

**Tueddu i Anghytuno** x

**Ansicr**

Gwnewch sylw os gwelwch yn dda:

Teimlwn nad yw'r amcanion cyffredinol a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys rhai o'r prif pryderon a wynebwr gan bobl hŷn sy'n oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), a'r gwasanaethau arbenigol sy'n eu cefnogi.

Er ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol i oroeswyr hŷn rhag cael mynediad i wasanaethau, a sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n hygyrch, mae cryn waith i'w wneud o hyd i adnabod VAWDASV mewn goroeswyr hŷn, yn enwedig ymhlith gweithwyr proffesiynol.

Nid oes digon o ffocws ar wybodaeth am anghenion menywod hŷn nac ar ddeall yr anghenion hynny, a byddai gwaith ar y cyd yn y maes hwn yn gwella cymorth i fenywod hŷn cyn iddynt brofi VAWDASV. Yn y pen draw, mae cael mynediad i wasanaethau yn bwysig ond mae angen i hyn fod ochr yn ochr â strategaethau clir i adnabod menywod hŷn sydd wedi profi VAWDASV a'i atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Felly, byddai'r strategaeth hon yn elwa o gynnwys amcanion clir sy'n gwella'r gwaith o adnabod anghenion penodol menywod hŷn o ran ymyrraeth gynnar ac atal, ac nid hygyrchedd gwasanaethau yn unig.

**2. A yw'r problemau penodol sy'n wynebu pobl hŷn mewn perthynas â cham-drin ac esgeulustod posibl wedi eu nodi'n briodol a'u mynegi mewn ffordd glir a defnyddiol? Os na, beth arall dylid ei nodi (a sut)?**

**Ydynt**

**Nac ydynt** x

**Ansicr**

Gwnewch sylw os gwelwch yn dda:

Er ein bod yn cydnabod bod y strategaeth hon yn cynnwys cydnabyddiaeth eang o nifer o'r problemau sy'n wynebu pobl hŷn, mae gennym rai amheuron ynghylch cwmpas y strategaeth hon:

- Mae'r strategaeth yn nodi rhai o'r prif broblemau sy'n wynebu pobl hŷn, gan gynnwys sicrhau y caiff pobl hŷn gymorth i fyw'n annibynnol, sicrhau cymorth gan wasanaethau diogelu pan fyddant mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso, a sicrhau bod pobl hŷn sy'n oroeswyr VAWDASV yn gallu cael mynediad i wasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, teimlwn fod y strategaeth yn ystyried y rhain mewn ffordd ynysig a bod angen mynd i'r afael â'r problemau penodol mewn ffordd fwy holistaidd. Er enghraifft, bydd llawer o'r rheini a roddir mewn gofal yn oroeswyr VAWDASV, ac mae'n bwysig ystyried eu hanghenion gyda'i gilydd, nid ar wahân. Bydd pryderon ynghylch dull o'r fath yn cael eu cynnwys o fewn ein hateb i Gwestiwn 3 yr ymgynghoriad hwn.
- Yn gysylltiedig â'r uchod, rhaid bod cydnabyddiaeth ffurfiol o'r ffaith na chyflawnir VAWDASV, yn arbennig yn erbyn pobl hŷn, bob amser gan bartner ac nad yw bob amser wedi'i ddsbarthu fel cam-drin gan bartner agos, ond yn hytrach y caiff ei gyflawni'n aml gan deuluoedd, plant ac wyrion. Er bod data ehangach yn eithriadol o gyfyngedig, canfu data adroddiad yn 2016 gan [Safe Lives](#), ymhlith goroeswyr 60 oed a hŷn, bod 40% o gyflawnwyr yn bartneriaid presennol, ond bod 44% o'r prif gyflawnwyr yn aelodau mewn oed o'r teulu. I'r gwrthwyneb, i'r rheini 60 oed ac iau, roedd 28% o'r cyflawnwyr yn bartneriaid presennol tra mai 6% yn unig o'r prif gyflawnwyr oedd yn aelodau mewn oed o'r teulu. O'r herwydd, mae angen i'r strategaeth fynd i'r afael â'r ffaith y gall cam-drin ymddangos yn wahanol iawn i oroeswyr hŷn ac y dylid cydnabod yn ffurfiol bob math o gam-drin yn erbyn pobl hŷn, a darparu cymorth cyfatebol.
- Mater o bwys sy'n ddiffygiol yn y strategaeth yw camau i wella'r ddealltwriaeth o VAWDASV a gyflawnir yn erbyn pobl hŷn. Nododd yr adroddiad [Gadewch Neb Ar Ôl/ Leave No one Behind](#) mai cymharol gyfyng yw dealltwriaeth y cyhoedd o'r cam-drin a wynebwr gan bobl hŷn, a chanfu [papur yn 2021](#) gan Hourglass (Action on Elder Abuse gynt), nad oedd bron i draean o drigolion y DU a holwyd yn ystyried bod gweithredoedd o gam-drin domestig, gan gynnwys gweithredoedd rhywiol amhriodol, a gyflawnir yn erbyn person hŷn yn gam-drin. Yn ogystal â hynny, mae teimlad cyffredinol o hyd ymhlith gwasanaethau arbenigol fod pobl hŷn yn ystyried cam-drin domestig fel rhywbeth sy'n cwmpasu gweithredoedd o drais yn unig ac mae pryder bod mathau di-drais o gam-drin yn cael eu colli. Felly rydym yn siomedig nad oes gan y strategaeth hon gamau clir i fynd i'r afael â hyn ymhlith y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r mathau o VAWDASV a brofir gan oedolion hŷn.

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymrwmo ar frys i ymgyrchoedd ledled Cymru i addysgu gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ynghylch sut beth y gall VAWDASV yn erbyn goroeswyr hŷn fod, a hynny er mwyn peidio â lleihau neu normaleiddio profiadau pobl hŷn.

- Ar draws yr holl fathau o gam-drin y cyfeiriwyd atynt yn y strategaeth, nid oes unrhyw ddiffiniadau o 'bobl hŷn' y cytunir arnynt. Rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn bwrpasol, fel y nodir yn [Strategaeth Cymru o blaid pobl hŷn](#), er mwyn sicrhau bod pobl o bob oed yn ymgysylltu â'r gwaith hwn. Fodd bynnag, credwn ei fod yn bwysig cydnabod nad yw pobl hŷn yn grŵp homogenaidd, ac y gall startegaethau i adnabod a rhoi cymorth i oroeswyr trais yn erbyn menywod fod yn wahanol iawn i'r rheini yn eu 50au a'r rheini yn eu 80au a thu hwnt. Croesawn y [cyhoeddiad](#) diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynnwys goroeswyr cam-drin domestig 75 a hŷn yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr. Rydym yn ymwybodol bod nifer fawr o oroeswyr yn haenen uchaf y grŵp oedran hwn a, heb ddata o ansawdd uchel, mae'n anodd i wasanaethau cymorth arbenigol gystadlu am gyllid i ddarparu cymorth i'r goroeswyr hyn.
- Mae llawer o rwystrau croestoriadol yn bodoli sy'n atal goroeswyr hŷn rhag cael mynediad i wasanaethau, megis dosbarth, iaith a stigma cyffredinol ynghylch VAWDASV. Rydym yn gwybod nad yw llawer o bobl yn adrodd am gam-drin, a bod hyn yn llawer mwy cyffredin ymhlith goroeswyr hŷn, a hynny'n aml oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn faich neu'n teimlo nad yw gwasanaethau 'ar eu cyfer nhw'. Nodwyd hyn hefyd yn adroddiad [Gadewch Neb Ar Ôl / Leave No one Behind](#), a chefnogwn yr alwad i gynnal asesiad cyflym i werthuso pa gymorth sydd ar gael i bobl hŷn sydd wedi profi VAWDASV a'r camau sydd eu hangen i sicrhau bod cymorth priodol ar gael.
- O fewn yr adran am 'Pobl Hŷn a Cham-drin Domestig,' rhaid cydnabod yn ffurfiol bod y rhan fwyaf o gymorth i oroeswyr VAWDASV yng Nghymru, gan gynnwys oedolion hŷn, yn dod o wasanaethau arbenigol a bod y gwasanaethau hynny yn wynebu heriau penodol. Er bod y strategaeth yn cydnabod bod sectorau eraill, megis gofal cartref, wedi'u heffeithio gan heriau recriwio a chadw staff, mae'n ddiffygiol o ran peidio â chydabod y rhain gan fod heriau cyffredinol hefyd yn bresennol ar draws y trydydd sector. Mae llawer o wasanaethau arbenigol yn y sector VAWDASV wedi adrodd am heriau sy'n ymwneud â chyllid tymor byr sy'n ei gwneud hi'n anodd recriwtio a chadw staff, yn arbennig pan all cyflogau yn y sector statudol fod yn llawer uwch a chynnig mwy o sefydlogrwydd. Mae gwasanaethau hefyd yn adrodd fwyfwy am heriau sy'n ymwneud â chost mwynderau fel dŵr, nwy a thrydan, sy'n arwain at ansicrwydd ariannol.

O ganlyniad, mae gan wasanaethau lai o gapasiti i ddarparu cymorth i'r nifer cynyddol o oroeswyr VAWDASV a atgyfeirir atynt. Golyga hyn fod gwasanaethau yn aml ymhellach oddi wrth oroeswyr, yn arbennig y rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, a'u bod yn fwyfwy anodd i oroeswyr hŷn gael mynediad iddynt. Rydym yn annog y strategaeth i gydnabod yr heriau sector-gyfan a wynebir gan y trydydd sector a chynnwys camau diriaethol i wella hyn, gan gynnwys ymrwymiad i gylchoedd ariannu hirdymor ac adolygidau gwariant rheolaidd i gydfynd â newidiadau mewn costau byw a chwyddiant.

**3. A yw dulliau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso wedi eu nodi mewn ffordd glir a defnyddiol?**

**Cytuno'n Gryf**

**Anghytuno'n Gryf**

**Ansicr**

**Tueddu i Gytuno**

**Tueddu i Anghytuno**

Gwnewch sylw os gwelwch yn dda:

Codwyd llawer o bryderon gan wasanaethau arbenigol ynghylch y ffordd y caiff anghenion gofal a chymorth eu nodi mewn goroeswyr hŷn VAWDASV ac argymhellwn eu hegluro o fewn y strategaeth hon.

Yn gyntaf, rhaid cydnabod anghenion VAWDASV o fewn cynlluniau gofal a chymorth goroeswyr hŷn os cânt eu rhoi mewn gofal, ac mae angen egluro'r ffordd y caiff risg ei asesu a'r ffordd y caiff anghenion gofal a chymorth eu diffinio ar gyfer goroeswyr hŷn. Dywedodd gwasanaethau arbenigol wrthym eu bod yn teimlo nad yw trothwyon o ran diogelu oedolion yn cyd-fynd â'r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio, ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos fod cynlluniau gofal yn aml yn cynnwys naill ai ymweliadau gan deuluoedd a phartneriaid neu gyd-fyw â nhw, heb ystyried eu statws fel goroeswyr/cyflawnwyr. Credwn fod yn rhaid ystyried dynameg perthnasoedd camdriniol mewn cynlluniau gofal a chymorth ar draws y sectorau statudol ac anstatudol, gan sicrhau bod gan oroeswyr fynediad i wasanaethau VAWDASV arbenigol waeth beth fo'u hanghenion gofal, ac y dylid eu credu os gwnânt ddatgeliad yn y pen draw.

Yn ogystal â'r uchod, nid yw'r strategaeth yn cydnabod y gall cam-drin fod yn gysylltiedig â diwedd oes, yn enwedig pan fo materion cysylltiedig yn ymwneud â chapasiti a chydsynio. Rydym yn ymwybodol o amgylchiadau lle ceisir mewnbyn gan gyflawnwyr yn ystod y broses o ddatblygu cynlluniau gofal a chymorth i'r rheini sy'n derbyn gofal diwedd oes. Mae ymchwil yn awgrymu y gall [trais wrth law partner agos waethygu yn ystod gofal diwedd oes](#) a hynny oherwydd straen megis beichiau corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ariannol

a bod angen gwell dealltwriaeth o drais wrth law partner agos a [pherthnasoedd teuluol camdriniol](#) i'w adnabod ac ymateb iddo er mwyn darparu gofal lliniarol holistaidd.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dangos bod angen strategaethau cliriach sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth pobl hŷn sydd mewn gofal ac sydd hefyd yn oroeswyr VAWDASV, yn arbennig ar ddiwedd oes, a chredwn fod yn rhaid ymgorffori'r rhain o fewn y strategaeth.

**4. A ydych yn cytuno fod y Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael â'r prif ffactorau risg sy'n wynebu pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu camdrin neu eu hesgeuluso? Os na, beth arall y dylid mynd i'r afael ag ef?**

**Cytuno'n Gryf**   
**Tueddu i Gytuno**

**Anghytuno'n Gryf**   
**Tueddu i Anghytuno**

**Ansicr**

Gwnewch sylw os gwelwch yn dda:

Credwn fod y strategaeth yn ddiffygiol o ran amcanion uniongyrchol i fynd i'r afael â rhai o'r prif ffactorau risg sy'n wynebu goroeswyr hŷn VAWDASV :

- Er ein bod yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth fod pobl hŷn yn oroeswyr rhai mathau o VAWDASV megis cam-drin domestig, esgeulustod, a chamdrin ariannol a hynny ar lefelau cynyddol, nid oes cydnabyddiaeth o'r ffaith fod goroeswyr hŷn hefyd yn profi mathau eraill o VAWDASV. Mae ein haelod-wasanaethau yn dychwelyd data chwarterol ar y rheini sy'n cael mynediad i wahanol fathau o wasanaethau cymorth ar gyfer goroeswyr VAWDASV. Ers y flwyddyn ariannol 2019/20, gwelodd aelod-wasanaethau gynnydd o 56% yn nifer y goroeswyr 65 a hŷn sy'n cael mynediad i loches, a chynnydd o 150% yn nifer y goroeswyr yn y grŵp oedran hwn sy'n cael mynediad i wasanaethau trais rhywiol. Felly mae'n amlwg na ellir cyfyngu profiadau goroeswyr hŷn i gam-drin domestig yn unig, ac y dylid darparu cymorth a chyllid i wasanaethau cymorth i oroeswyr hŷn pob math o drais yn erbyn menywod.
- Gydag [amcangyfrifon](#) bod 1 o bob 3 pherson yn y gweithle yng Nghymru yn 50 neu'n hŷn, a data gan adroddiad [Dim Ardal Lwyd](#) Cymorth i Ferched Cymru yn dangos bod 4 o bod 5 menyw yng Nghymru wedi profi rhyw fath o aflonyddu rhywiol yn y gweithle, mae'n rhaid cael cydnabyddiaeth o'r aflonyddu rhywiol a wynebwr gan bobl hŷn yn y gweithle. Croesawn y gydnabyddiaeth yn strategaeth VAWDASV fod yn rhaid mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle,

ond o ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio a'r argyfwng costau byw parhaus, mae'n amlwg y bydd y nifer o bobl y tu hwnt i oed ymddeol sy'n parhau yn y gweithle yn cynyddu yn unol â hyn, a bod yn rhaid ymgorffori strategaethau i sicrhau eu diogelwch o fewn y cynnig hwn.

- Er bod y strategaeth yn cynnwys nod i sicrhau y gall pobl hŷn sy'n profi VAWDASV gael mynediad i wasanaethau cymorth, a chroesawn hynny, mae'n ddiffygiol o ran yr addewidion clir sydd eu hangen ar wasanaethau arbenigol er mwyn gallu eu cefnogi. Mae angen i'r strategaeth gynnwys addewidion uniongyrchol ar gyfer gwell darpariaeth lloches sy'n addas i bobl hŷn, oherwydd os na allant gael mynediad at gymorth sy'n addas iddynt ac i'w hanghenion, maent yn fwy tebygol o aros gartref, yn aml gyda'r cyflawnwr, ac felly barhau i fod mewn perygl. Yn wir, mae [data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn dangos fod 22% o ddynladdiadau domestig yng Nghymru a Lloegr yn bobl sy'n hŷn na 65, gyda'r mwyafrif ohonynt yn 70 oed neu'n hŷn. At hyn, fel yr amlinellwyd uchod, mae nifer y goroeswyr sy'n 65 oed a hŷn sy'n cael mynediad i wasanaethau cymorth gan aelod-sefydliadau Cymorth i Ferched Cymru yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dangos bod angen am wasanaethau a darpariaeth lloches uniongyrchol sy'n addas i oroeswyr hŷn, ac i'r gwasanaethau hynny dderbyn adnoddau digonol a sicrhau argaeledd pan fo angen.
- Mae teimlad cryf ymhlith gwasanaethau cymorth arbenigol fod gwasanaethau statudol, yn arbennig wasanaethau cymdeithasol, yn gweithio ar wahân iddynt yn hytrach nag ochr yn ochr â nhw. Mae teimlad nad ydynt yn deall anghenion goreswyr hŷn, sy'n arwain atynt, er enghraifft, yn mynd yn ôl ac ymlaen at gynhadleddau amlasiantaeth asesu risg (MARAC) pan nad dyma'r llwybr gorau iddynt o bosibl i geisio cymorth. Yn gysylltiedig â hyn, mae gwasanaethau arbenigol wedi nodi bod problemau'n ymwneud â'r ffordd y mae gwasanaethau statudol yn cydnabod VAWDASV yn parhau'n gyffredin ledled Cymru. Mae teimladau cyffredinol nad yw anghenion cymorth a gofal wedi'u diffinio'n ddigon da, a bod problemau gyda'r ffyrdd y dylid nodi a chydabod y rhain mewn goroeswyr hŷn.

**5. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal Cam-drin Pobl Hŷn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y byddai yna? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Gwnewch sylw os gwelwch yn dda:



Rydym am dynnu sylw at bwysigrwydd darparu gwasanaethau i bobl hŷn sy'n goroesi VAWDASV yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg, ill dwy. Dengys y [data diweddaraf](#) gan Ystadegau Cymru fod y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg, y tu hwnt i'r rheini o oed ysgol, ymhlith y grŵp oedran 65+, a dengys data fod siaradwyr Cymraeg yn [y grŵp oedran hwn](#) yn fwy tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. O'r herwydd, credwn ei bod yn bwysig darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac i'r rhain gael eu darparu'n uniongyrchol yn hytrach na thrwy ddulliau eilaidd megis drwy gyfieithwyr. Dywedodd staff gwasanaethau cymorth arbenigol wrthym ei bod yn hanfodol i oroeswyr pob math o VAWDASV allu trafod eu profiadau yn eu dewis iaith, yn arbennig wrth drafod eu teimladau a'u profiadau a allai gynnwys trawma difrifol.

Mynegodd staff gwasanaethau arbenigol eu pryder hefyd ynghylch gwasanaethau eraill na chânt eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r rhwystrau a grëwyd gan hyn i oroeswyr hŷn wrth geisio cael mynediad at gymorth. Codwyd pryderon ynghylch diffyg hygyrchedd lleoliadau gofal iechyd, sef ysbytai, a mynegwyd y teimlad fod pobl hŷn yn ei chael hi'n anodd egluro eu hanes meddygol y tu allan i'w dewis iaith, er enghraifft, gallu esbonio'n glir sut y cawsant anaf. Mae hyn hefyd yn creu'r teimlad o aralleiddio ac, o ystyried bod [data](#) yn dangos bod pobl hŷn ar gyfartaledd yn cymryd dwywaith cyhyd i adrodd am gam-drin, mae gwaith a strategaethau parhaus sy'n chwalu rhwystrau cyfathrebu o'r fath yn hanfodol ac yn ddiffygiol o'r strategaeth hon. Yn fyr, credwn y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol y strategaeth hon ar ddefnydd y Gymraeg drwy ymrwmo i ddarparu'r holl wasanaethau statudol ac anstatudol yn Gymraeg a Saesneg i bawb sydd wedi goroesi VAWDASV, waeth ble y maent yn preswyllo.

At hyn, er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae'n rhaid darparu gwasanaethau mewn ieithoedd eraill hefyd a hynny yn uniongyrchol ar y pwynt cyswllt. Yn ôl [data](#) y cyfrifiad mwyaf diweddar sydd ar gael o Gymru, ar ôl Saesneg a Chymraeg, yr ieithoedd mwyaf cyffredin a siaredir yng Nghymru yw Pwyleg (0.6%), Arabeg (0.2%), Bengaleg (0.2%), a Tsieineeg (0.2%). Mae gwasanaethau ar draws Cymru a gyfrannodd i'r ymgynghoriad hwn yn teimlo fel pe bai rhannau helaeth o'r cymunedau heb fynediad iddynt, ac y bydd y grŵp hwn yn tyfu wrth i genedlaethau heneiddio. Yn aml, nid yw iaith dechnegol yn cyfieithu'n dda i ieithoedd eraill ac mae pobl hŷn yn dibynnu ar eu teuluoedd i gyfieithu gwybodaeth ar eu cyfer, sy'n eu rhoi mewn perygl o gael eu hynysu ac yn ei gwneud hi'n llawer anoddach iddynt gael mynediad i wasanaethau hanfodol. Byddai darparu gwasanaethau a chyfathrebu ynghylch gwasanaethau yn ystyrlon mewn ieithoedd eraill o gymorth i sicrhau y gall holl oroeswyr hŷn VAWDASV gael mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar y cyfle cyntaf.

**6. Rydym wedi holi nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi os gwelwch yn dda:**

Gwnewch sylw os gwelwch yn dda:

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw raglenni penodedig i gyflawnwyr hŷn, ac mae teimlad ymhlith gwasanaethau arbenigol fod dynion iau a chanol oed yn gyffredinol yn cael mynediad at raglenni o'r fath yn amlach. Yn wir, canfu [gwerthusiad](#) tair blynedd o brosiect Drive, a dreilawyd ar draws Essex, De Cymru, a West Sussex rhwng 2016 a 2019, mai 32 oedd oed cyfartalog cyfranogwyr, er bod oed dynion sy'n cael mynediad i'r rhaglenni yn amrywio o 17 i 81 mlwydd oed. Mae llawer o dystiolaeth am lwyddiant rhaglenni cyflawnwyr. [Gwerthusiad](#) prosiect Drive yw'r gwerthusiad mwyaf o raglenni cyflawnwyr sy'n defnyddio dyluniad a reolir ar hap yn y DU hyd yma, a chanfu fod ymyrraeth yn lleihau ymddygiadau risg uchel yn sylweddol, gan gynnwys cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, aflonyddu a stelcian ac ymddygiadau eiddigeddus a rheolaethol. At hyn, roedd y gostyngiad hwn yn llawer cryfach na grŵp rheoli. Credwn fod ymyrraeth gynnar ac atal yn allweddol i ddileu pob math o VAWDASV, felly credwn y byddai'r strategaeth hon yn elwa o gynnwys ffocws ar sicrhau y cynllunnir rhaglenni cyflawnwyr ar gyfer dynion hŷn a bod y rhaglenni hynny yn hygyrch iddynt.

Yn ogystal â hyn, hoffem roi adborth ar gynnig y strategaeth ar gyfer Corff Llais y Dinesydd (CVB). Croesawn yr addewid i gynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd wrth galon dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol ac rydym yn eiriol dros baneli cynrychioliadol sy'n sicrhau y caiff lleisiau dinasyddion eu clywed. Fodd bynnag, hoffem weld gwarantu cadarn gan Llywodraeth Cymru y bydd corff o'r fath yn cynnwys lleisiau goroeswyr a bod y rheini'n gynrychioliadol o amrywiaeth profiadau bywyd goroeswyr ledled Cymru. Yn ogystal â hyn, mae angen mwy o fanylion am fecanwaith y CVB, gyda gwariantau cadarn angenrheidiol fod yr iaith a ddefnyddir yn ystyrlon ac y byddant wedi'u lleoli mewn cymunedau ac y byddant yn hygyrch, yn enwedig lle bo anghenion mynediad yn croestorri, a hynny er mwyn sicrhau bod hyn yn wirioneddol gynrychioliadol.

Yn olaf, mae gwasanaethau arbenigol yn parhau i deimlo nad yw rhai rhannau o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn dal i gydnabod VAWDASV fel mater iechyd cyhoeddus. Yn arbennig ymhlith pobl hŷn, mae yna deimlad y caiff ei weld fel mater preifat rhwng partneriaid neu deuluoedd. Yn wir, yn ôl [data diweddar](#) gan Women's Aid Federation of England allan o sampl o dros 2,000 o oedolion yn y DU, roedd 4.2% yn teimlo bod trais domestig yn fater preifat ac roedd 8.7% yn ansicr. Mae hyn yn dangos bod angen i waith cyfathrebu Llywodraeth Cymru barhau i dynnu sylw at y ffaith mai mater iechyd cyhoeddus yw VAWDASV, ac y dylid ei drin felly gan bawb.



**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma os gwelwch yn dda:**

